sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
# Cynllun Datblygu Lleol

# Profion Cadernid: Hunanasesiad



2il Adneuo
Chwefror 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Rhagarweiniad

Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) ar gyfer Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal honno a gynhwysir o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Bydd y Cynllun yn nodi polisïau cynllunio a dyraniad safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn defnyddio'r Cynllun ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio tan 2033. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro ac adolygu cynnwys y Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas a'i fod yn gweithio yn ôl y disgwyl. Bydd y Cynllun yn llywio ac yn rheoli gwaith datblygu gan osod y sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a chlir.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r hunan-asesiad o ran sut a pham mae'r Cyngor yn ystyried bod y Cynllun wedi bodloni'r Profion Cadernid a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn ailwirio bod y Cynllun yn cydymffurfio â'r gofynion paratoi a'i fod yn bodloni'r 3 phrawf cadernid (fel y'u nodir isod).

## Profion Cadernid

Mae'r gofyniad hanfodol i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) fod yn 'gadarn' wedi'i nodi yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac mewn Polisïau Cynllunio cenedlaethol. Fel rhan o'r broses o sefydlu cadernid, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal hunan-asesiad o gadernid ei CDLl ei hun.

Asesir cadernid y CDLl mewn archwiliad annibynnol cyhoeddus gan Arolygydd Cynllunio a benodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr archwiliad yn asesu a yw gofynion paratoi'r Cynllun wedi'u dilyn a bydd yn pennu a yw'n 'gadarn' - hynny yw ei fod yn cydymffurfio â phob un o'r 3 phrawf cadernid fel y'u nodir isod.

Mae'r Llawlyfr CDLl Argraffiad 3 (Mawrth 2020) yn nodi cyfres o gwestiynau i gynorthwyo wrth nodi'r materion hynny a all fod yn berthnasol ar gyfer pob prawf cadernid.[1]

### Gofynion Paratoi:

A yw'r gwaith paratoi wedi cydymffurfio â gofynion gweithredu cyfreithiol a rheoleiddiol?
(Rheoliadau CDLl, y Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ati?)

A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu)

[1] Mae angen cadarnhau'n derfynol y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ar ôl iddo gael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn ystod haf 2019.

## Profion Cadernid:

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu?** (h.y. a yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?)

***Cwestiynau***

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru) a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?
- A yw'n ystyried Nodau Llesiant?
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
- A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?
- A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r FfDC (pan gaiff ei gyhoeddi)?
- A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (ar ôl iddo gael ei fabwysiadu)?
- A yw'n gyson â chynlluniau, strategaethau a rhaglenni darparu cyfleustodau rhanbarthol?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos?
- A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu'r Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol?
- A yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dangos ei fod wedi manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i weithio ar y cyd a chydweithredu ar baratoi'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth?

**Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

***Cwestiynau***

- A yw'n ymwneud yn benodol â'r ardal leol?
- A yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A ellir dangos y sail resymegol i bolisïau'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a asesir a chyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon dyheadol?
- A yw'r dewisiadau amgen ‘gwirioneddol' wedi'u hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, rhesymol a chytbwys?
- A yw'n gydlynol a chyson?
- A yw'n glir a phenodol?

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn gweithio** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

***Cwestiynau***

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cymorth ar gael gan y darparwyr seilwaith perthnasol, yn ariannol ac o ran bodloni terfynau amserol perthnasol?

- A fydd datblygiadau'n ddichonol?
- A ellir darparu'r safleoedd a ddyrannwyd?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

Wrth gynnal yr hunan-asesiad, mae'r tablau canlynol yn defnyddio'r cwestiynau a nodir uchod mewn perthynas â phob prawf. Mae'r templed hwn yn caniatáu iddo ystyried cadernid y Cynllun hyd yn hyn.

## Gofynion Paratoi:

- *A yw'r gwaith paratoi wedi cydymffurfio â gofynion gweithredu cyfreithiol a rheoleiddiol?*

*(Rheoliadau CDLl, y Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ati?).*

Ydy Mae'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol. Dylid cyfeirio at gyhoeddi'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Caiff hyn ei ystyried ymhellach yn erbyn y Rheoliadau CDLl perthnasol:

**Rheoliad 5 - Paratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau:**
Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS) yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid mewn modd ystyrlon drwy gydol proses y CDLl. Mae wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni ac mae'n cynnwys rhestrau o'r grwpiau, y cyrff a'r unigolion hynny yr ymgynghorir â hwy yn ystod y broses o baratoi'r CDLl. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n eang ar baratoi'r CIS ac fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.

**Rheoliad 6 - Cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau:**
Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau'n nodi'r canlynol:
a) Cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol
b) Egwyddorion y strategaeth gyfranogi ar gyfer paratoi'r Cynllun
c) Amseru a dull y cyfranogiad yn ystod pob cam ac ymateb y Cyngor
d) Sut y defnyddir ymatebion wrth ddatblygu cynnwys y CDLl

**Rheoliad 7 - Paratoi Amserlen:**
Ymgynghorwyd â'r cyrff ymgynghori, y grwpiau a'r unigolion perthnasol fel rhan o'r broses o baratoi amserlen yn y Cytundeb Cyflawni fel y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

**Rheoliad 8 - Amserlen:**
Mae'r amserlen yn y Cytundeb Cyflawni'n nodi'r amserlen ar gyfer llunio'r Cynllun a'r camau allweddol o'i baratoi. Mae hyn yn cynnwys dyddiadau diffiniol a dangosol ar gyfer paratoi'r Cynllun.

**Rheoliad 9 a 10 - Cytundeb Cyflawni:**
Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Rheoliadau.

Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i gyhoeddi ac ar gael.

**Rheoliad 11 - Ffurf a chynnwys y CDLl**

Mae'r CDLl Diwygiedig yn glir wrth gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas ag enw'r ardal, ei fod yn CDLl a'r cam sydd wedi'i gyrraedd.

Mae polisïau'r CDLl, y rhai strategol a'r rhai penodol, wedi'u hategu gan destun sy'n ddigon clir ac amlwg.

**Rheoliad 12 - Map Cynigion:**
Mae'r Map Cynigion wedi'i lunio ar ffurf electronig ar wefan y Cyngor a hefyd mae modd cael golwg arno yn y mannau Adneuo perthnasol.

**Rheoliad 14 - Cyfranogiad Cyn-adneuo:**
Cynhaliwyd cyfnod helaeth o ymgysylltu ac ymgynghori gan gynnwys sesiynau fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir. Cynhaliwyd proses ymgynghori ac ymgysylltu ar draws ystod o gyrff ymgynghori yn ogystal â'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.

**Rheoliad 15 ac 16 - Ymgynghoriad Cyn-adneuo Cyhoeddus:**
Cyhoeddwyd y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2018. Cafodd yr ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir eu rhannu â'r Cyngor ar 15 Mai 2019 ac maent wedi'u hystyried a'u hymgorffori yn y broses o baratoi'r Cynllun Adneuo, lle bo hynny'n briodol.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.

**Rheoliad 17 - Adneuo Cynigion:**
Mae ymgynghoriad y CDLl Adneuo wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau o ran cyhoeddi dogfennau a sicrhau eu bod ar gael i fwrw golwg arnynt, ac ymgynghori â'r cyrff perthnasol.

**Rheoliad 18 - Sylwadau ynghylch y CDLl Adneuo:**
Mae'r amrywiaeth o ddulliau o gyfrannu at gynnwys y CDLl Adneuo (gan gynnwys defnyddio'r porth ymgynghori ar-lein) ar gael i fwrw golwg arnynt yn y mannau a nodir.

**Rheoliad 19 - Ymdrin â sylwadau Adneuo:**
Cyn gynted ag sy'n rhesymol arferol, bydd y sylwadau'n cael eu cyhoeddi i'w harchwilio. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ar ei wefan fanylion ynghylch yr holl sylwadau a ddaeth i law, ynghyd â datganiad ynghylch sut y gellir eu harchwilio.

**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol - Arfarniad Cynaliadwyedd Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC - Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.**
Mae'r Cyngor wedi llunio Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o'r CDLl Diwygiedig. Mae'r AC/AAS hefyd yn ystyried yr effaith ar iechyd. Mae'r AC/AAS wedi cyflawni rôl gyson yn y broses o lunio cynlluniau. Mae adroddiadau AC/AAS wedi'u llunio yn ystod y Cam Cwmpasu, y Cam Cychwynnol a'r Cam Adneuo. Er y nodir ei bod yn ofynnol ymgynghori â chyrff

ymgynghori penodol, mae'r Cyngor wedi cymryd y cam o gyhoeddi'r adroddiadau AC/AAS ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Paratowyd yr uchod fel rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLl Adneuo.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - Cynllunio a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994:**
Cyhoeddwyd Adroddiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd at ddibenion cyhoeddi ynghyd â'r ymgynghoriad cyn-adneuo (y Strategaeth a Ffefrir). Mae Adroddiad Asesu Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y CDLl Adneuo.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**
Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir, a'i gyhoeddi i ategu'r ddogfen. Mae'r CDLl Adneuo hefyd wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sydd ar gael fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

## Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu?

(h.y. a yw'n amlwg bod y CDLl yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

Ydy, cafodd y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ei pharatoi'n bennaf yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9. Fodd bynnag, mae'r gwaith o baratoi'r Ail GDLl Adneuo a'i bolisïau a'i gynigion wedi'u paratoi yng nghyd-destun PCC Argraffiad 11 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Mae gan bob un o'r polisïau strategol dabl Cyd-destun Polisi sy'n croesgyfeirio at adrannau perthnasol o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11.

Paratowyd y CDLl Adneuo gan roi ystyriaeth lawn i'r cynlluniau a'r strategaethau perthnasol, gan gydnabod y bydd angen iddo ymateb a datblygu wrth symud ymlaen drwy ei broses baratoi.

Nodir y cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (gan gynnwys y rheiny mewn ardaloedd cyfagos) (lle bo'n berthnasol) yn Atodiad 2 o'r Cynllun ac yn nhystiolaeth ategol y Cynllun, yr adroddiad Adolygu, y papurau pwnc a'r Adroddiad AC Integredig ac ati.

Mae'r Adroddiad AC Integredig yn adolygu'r cynlluniau a'r polisïau perthnasol ar lefel ryngwladol/Ewropeaidd, genedlaethol, ranbarthol a lleol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r berthynas rhwng y CDLl a pholisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac amcanion cynaliadwyedd. Mae hyn yn nodi goblygiadau mewn perthynas â'r CDLl.

Adlewyrchir dylanwad yr uchod hefyd wrth nodi materion allweddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Adlewyrchir y rhain drwy gydol y Cynllun ac maent wedi llywio'r weledigaeth, yr amcanion strategol a'r polisïau strategol.

| |
|---|
| *A yw'n ystyried polisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?*<br><br>Ydy. Noder: cychwynnwyd y Cynllun a'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir cyn mabwysiadu Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040. Cyfeiriwyd yn gyntaf at gynnwys Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru (2008), gyda darpariaethau'r Cynllun yn cydnabod rôl Sir Gaerfyrddin yn y 3 ardal ofodol yn y Sir. Roedd yn ceisio adlewyrchu'i gynnwys gan gydnabod amrywiaeth y Sir a'i phwysigrwydd strategol yn y rhanbarth.<br><br>Wrth osod sail ar gyfer yr hierarchaeth aneddiadau, mae'r Papur Pwnc Rôl a Swyddogaeth yn adlewyrchu cynnwys (a statws) aneddiadau'r Sir yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. |
| *A yw'n ystyried Nodau Llesiant?*<br><br>Ydy. Mae'r CDLl Adneuo'n rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac i'r nodau llesiant. Cafodd y gwaith o hyrwyddo a chydnabod llesiant ei ymgorffori'n gynnar yn y trafodaethau a gafwyd ynghylch paratoi'r Cynllun ag ystod o randdeiliaid. Mae'r Cynllun Adneuo, drwy nodi materion (fel y'u hategwyd yn y Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol – wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2019) yn eu cysylltu â'r nodau llesiant cenedlaethol gan eu grwpio o dan bob pennawd.<br><br>Mae thema llesiant a darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'u hadlewyrchu yn y defnydd o'r nodau llesiant lleol wrth fframio'r amcanion strategol a'r polisïau strategol. Yn hyn o beth, mae Atodiad 6 o'r Cynllun Adneuo yn ceisio asesu pob polisi o ran pa mor gydnaws ydynt â'r Nodau Llesiant Lleol gyda chysylltiadau â'r Amcan Strategol priodol sydd yn ei dro yn cysylltu'n uniongyrchol â'r materion a nodwyd.<br><br>Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol o ran y CDLl mabwysiedig presennol yn cynnal dadansoddiad priodoldeb o'r Amcanion/Nodau Llesiant.[2] Er ei fod yn cynrychioli adolygiad cychwynnol ar lefel uchel, mae hyn yn ffurfio sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLl. |
| *A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?*<br><br>Ydy. Cyhoeddwyd *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru* cyntaf gan Lywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2019. Dylid nodi bod y diwrnod cyhoeddi un diwrnod cyn cyhoeddi'r CDLl Adneuo Cyntaf. Fodd bynnag, mae ei gynnwys wedi cael ei ystyried drwy baratoi'r Ail Gynllun Adneuo. |

[2] Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 – 2019 (https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216076/annual-monitoring-report-2017-2018-web-003.pdf)

Fel rhan o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru lunio Cynllun Morol.

- rhanbarth y glannau (hyd at 12 o filltiroedd môr o'r tir)
- y rhanbarth morol (12 i 200 o filltiroedd môr)

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n cynnwys cynlluniau a pholisïau a fydd yn cyflawni'r canlynol:

- cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer moroedd glân, iach, diogel ac amrywiol;
- arwain datblygiad cynaliadwy yn y dyfodol;
- cefnogi twf gofod morol ac adnoddau naturiol ('twf glas')

Mae Polisi Strategol SP15 (wrth gydnabod yr heriau sylfaenol y mae newid yn yr hinsawdd yn eu peri) yn ategu'r Cynllun Morol ynghylch materion gan gynnwys perygl llifogydd, ac mae SP13 ac SP11 yn ymateb i faterion megis hyblygrwydd a seilwaith gwyrdd a chysylltedd.

*A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?*

Yn y cyd-destun a bennir gan Ddeddf yr Amgylchedd, mae CNC wedi paratoi Datganiad Ardal De-orllewin Cymru.

Bydd y datganiad ardal yn nodi'r canlynol:
•yr adnoddau naturiol ym mhob ardal a'r buddion y maent yn eu rhoi;
•y cyfleoedd a'r heriau allweddol ar lefel leol;
•sylfaen dystiolaeth gyffredin gyda gwybodaeth, data a thystiolaeth.

Mae Datganiad Ardal y De-orllewin yn nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol y mae angen i bob un ohonom fynd i'r afael â nhw i feithrin gwytnwch ein hecosystemau a chefnogi rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol..

Paratowyd camau cychwynnol y gwaith o baratoi'r Cynllun gan gynnwys y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir a'r CDLl Adneuo Cyntaf cyn cwblhau'r Datganiad Ardal. Fodd bynnag, mae'r Ail Gynllun Adneuo wedi cael ei lywio nid yn unig gan ei gynnwys ond hefyd gan y dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd. Cyfeirir yn benodol at ddatganiadau Argyfyngau Hinsawdd a Natur y Cyngor, y mae'r Cynllun yn ceisio eu hadlewyrchu – mae gan hyn gysylltiad clir gyda themâu'r Datganiad Ardal ar wyrdroi dirywiad, a gwella, bioamrywiaeth a lliniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid.

*A yw'r Cynllun yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r FfDC sydd i ddod (pan gaiff ei gyhoeddi)?*

Cyhoeddwyd Drafft Ymgynghori'r FfDC ar 7 Awst 2019 ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Fe'i cyhoeddwyd ar adeg pan oedd y CDLl Adneuo Cyntaf wedi'i baratoi i raddau helaeth ac, o ganlyniad, ni fu'n bosibl rhoi ystyriaeth lawn i'r FfDC yn y fersiwn honno o'r Cynllun.

Fodd bynnag, wrth ei baratoi, mae'r Ail Gynllun Adneuo wedi ceisio sicrhau bod cydweddu o ran ei gynnwys, gan gydnabod nad adolygu na newid strategaeth y Cynllun oedd cynsail yr Ail Gynllun Adneuo.

Fel rhan o'r gwaith rhanbarthol, rydym wedi ceisio datblygu ein dealltwriaeth o raddau gofodol Ardaloedd Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli fel y nodir yn 'Cymru'r Dyfodol'. Caiff hyn ei gyhoeddi fel rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun.

*A yw'r Cynllun yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (ar ôl iddo gael ei fabwysiadu)?*

Nid oes Cynllun Datblygu Strategol ar hyn o bryd yn rhanbarth de-orllewin Cymru.

Noder: bydd ffurfio'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r cynnydd tuag at baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Rhanbarth y De-orllewin yn parhau i gael eu monitro.

*A yw'n gyson â chynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau lleol?*

Ydy. Paratowyd y CDLl Adneuo yng nghyd-destun y cynlluniau, y strategaethau a'r rhaglenni cyfleustod rhanbarthol perthnasol.

Mae'r Cynllun, ei ddogfen ategol, ei bapurau pwnc a'i dystiolaeth, yn nodi sut y mae wedi'i baratoi yng ngoleuni cynlluniau rhanbarthol, strategaethau ac unrhyw rhaglenni buddsoddi. Mae gwaith wedi'i wneud i ymgysylltu ag ystod o ddarparwyr seilwaith a chyfleustodau - Dŵr Cymru yn benodol.

Cyfeirir yn benodol at bwysigrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe mewn perthynas â'r rhanbarth. Gwneir cyfeiriad at bolisi strategol SP5 sy'n nodi'r ddau brif brosiect yn yr ardal fel safleoedd strategol. Ceir hefyd cyfeiriad uniongyrchol ato yn y Weledigaeth a'r Amcanion Strategol. Rhoir sylw hefyd i Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru.

*A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos?*

Ydy. Mae'r gwaith o baratoi'r CDLl Adneuo'n adlewyrchu'r cyswllt agos â'r holl awdurdodau cyfagos (yn ogystal â sefydliadau hanfodol eraill) yn unigol ac ar sail pwnc, ond hefyd drwy fframweithiau rhanbarthol gan gynnwys (lle bo hynny'n berthnasol) y trafodaethau cysylltiedig â llunio'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i ddyletswyddau i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Dyma'r awdurdodau cyfagos sy'n cymryd rhan:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Dinas a Sir Abertawe;
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Cyngor Sir Penfro;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; a
- Cyngor Sir Powys.

| |
|---|
| Fel rhan o gydnabyddiaeth y Cyngor o werth gweithio gydag awdurdodau cyfagos, yn benodol mae gweithio ar y cyd wedi bod wrth wraidd casglu tystiolaeth mewn perthynas â pharatoi'r comisiynau rhanbarthol canlynol:<br>• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol,<br>• Asesiad o'r Farchnad Dai Ranbarthol,<br>• Astudiaeth Cyflogaeth Dwy Sir Is-ranbarthol,<br>• Astudiaeth Ddichonoldeb Masnachu Credyd Ffosffad a Maetholion,<br>• Astudiaeth Ardal Twf Genedlaethol a<br>• Model Hyfywedd Tai Rhanbarthol.<br><br>Bydd natur y cydweithio rhwng awdurdodau a rhannu dulliau (gan gynnwys meysydd polisi thematig tebyg) yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun barhau ac fel rhan o'r gwaith paratoi sy'n gysylltiedig â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.<br><br>O ran materion ynghylch mwynau a gwastraff, mae Sir Gaerfyrddin yn gweithredu nifer o gytundebau lefel gwasanaeth ag awdurdodau ar draws y rhanbarth a'r tu hwnt. Mae hefyd yn gyfrifol am gydlynu a chynnal yr Adroddiad Cynlluniau Monitro Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae Atodiad 2 o'r CDLl Adneuo'n nodi'r sefyllfa ranbarthol a'i chydweddoldeb â chynlluniau awdurdodau cyfagos. |
| A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu'r Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol?<br><br>Cynhyrchodd Sir Gaerfyrddin ddogfen integredig yn 2011 ar ffurf y Strategaeth Gymunedol Integredig ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2011-16. Er mwyn cydnabod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, dechreuodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) weithio ar y Cynllun Llesiant a gymeradwywyd yn 2018. Yn ogystal, mae gan y Cyngor amcanion llesiant sydd wedi'u cynnwys yn ei strategaeth gorfforaethol.<br><br>Mae'r Cynllun yn adeiladu ar ymrwymiadau'r Cyngor a'r BGC mewn perthynas â llesiant fel y'u nodir yn y strategaeth gorfforaethol a'r Cynllun Llesiant. |
| A yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dangos ei fod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio wrth baratoi'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth?<br><br>Fel y nodwyd uchod mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod wrthi'n cydweithio ag awdurdodau cyfagos. Bydd hyn yn parhau ac yn datblygu ymhellach wrth i waith fynd rhagddo ar y CDLl diwygiedig ond hefyd ar y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y cydweithio hefyd yn datblygu ymhellach wrth i'r awdurdodau yn y rhanbarth a thu hwnt (gan gynnwys partneriaid eraill) geisio ymateb i'r heriau a achosir gan ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol gwarchodedig, yn ogystal â phroblemau eraill a ddisgwylir o ran ansawdd dŵr a maetholion. |

Mae'r Ail GDLl diwygiedig Adneuo yn ystyried cyfleoedd i weithio ar y cyd wrth baratoi'r Cynllun. Yn hyn o beth nid yw'r amserlenni sy'n gysylltiedig â pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer awdurdodau cyfagos yn caniatáu aliniad parod wrth baratoi'r Cynllun.

**Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Ydy. Mae'r gwaith o lunio'r Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth a'r broses o nodi Materion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Pholisïau Strategol sy'n benodol yn lleol.

Y pwyslais oedd ar gynnal cyfres o drafodaethau ynghylch y math o Sir ydyw Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, a'r math o Sir y mae rhanddeiliaid am iddi fod. Y sail ar gyfer cynnal y trafodaethau hyn oedd y ffaith bod proses “Y Sir Gâr a Garem" eisoes wedi'i chynnal fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Llesiant y BGC.

Mae'r Cynllun Llesiant, yr Amcanion Llesiant a'r Strategaethau Corfforaethol Lleol wedi darparu sail ar gyfer Cynllun sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin nad yw'n gyffredinol. Mae datblygu ymwybyddiaeth ofodol yn hanfodol, yn enwedig o ran cydnabod y cyferbyniad gwledig/trefol yn y Sir. Nod y Weledigaeth yw pennu'r cyd-destun ar gyfer dull "Un Sir Gâr" ac mae'n chwarae rôl uno yn hyn o beth.

Un darn allweddol o dystiolaeth i gysylltu'r materion, y weledigaeth a'r amcanion â'r twf a'r strategaeth ofodol yw'r papur pwnc rôl a swyddogaeth. Mae hyn yn darparu cyswllt hanfodol rhwng y darnau hyn o waith drwy ddarparu cyd-destun gofodol ac felly mae'n dangos dull sy'n unigryw yn lleol.

Dylid cyfeirio ymhellach at y dogfennau sy'n ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth gan gynnwys y papur Rôl a Swyddogaeth a'r papur Tai a Thwf.

*A yw'n ymwneud yn benodol â'r ardal leol?*

Ydy. Mae'r Cynllun hwn wedi'i lunio yn sgil ymgysylltu'n effeithiol ac adeiladu consensws. Ers dechrau'r adolygiad ym mis Ionawr 2018, dyma'r hyn sydd wedi'i gynnal:

- Cyfarfodydd Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl;
- Gweithdy/seminar y CDLl ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned;
- Cyfarfodydd y Fforwm Datblygwyr;
- Sesiynau galw heibio ac arddangosfeydd cyhoeddus;
- Ymgynghoriadau cyhoeddus;
- Nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau gyda grwpiau gwleidyddol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein i gefnogi a llywio'r broses o nodi materion, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ynghylch yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

| |
|---|
| O ran yr Aelodau Etholedig, mae'r Strategaeth hon wedi'i ffurfio gan gyfranogiad trawsbleidiol. Mae Panel Ymgynghorol y CDLl wedi cynnal un ar ddeg cyfarfod ers Tachwedd 2017. Mae'r Panel yn cynnwys Aelodau Etholedig a'i brif ddiben yw cymryd perchenogaeth wleidyddol ar y CDLl Diwygiedig.<br><br>Mae'r materion wedi dod o ffynonellau tryloyw. Dylid nodi eu bod yn cael eu grwpio o dan y nodau llesiant cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu fframio yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn caniatáu i'r gwerthfawrogiad o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gael ei ymgorffori yn y Cynllun ac i'r llesiant gael ei blethu yn y Cynllun o'r dechrau.<br><br>Mae papur pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2019) yn nodi lle mae'r problemau wedi dod i'r golwg. Mae ffynonellau nodedig yn cynnwys adolygiadau polisi, canlyniadau adroddiadau adolygu CDLl, canlyniadau gweithdai cynghorau tref a chymuned, canlyniadau fforymau rhanddeiliaid allweddol, ymgysylltu â chynghorwyr sir, adran "cipolwg" ar y cynllun llesiant, adroddiad cwmpasu drafft yr arfarniad cynaliadwyedd/asesiad amgylcheddol strategol ac ymgynghoriad cyhoeddus. Cyfeirir hefyd at y gyfres arall o dystiolaeth ar draws ystod o themâu. |
| *A yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol?*<br><br>Ydy. Mae'r amcanion strategol yn cysylltu â'r materion allweddol y bwriedir iddynt fynd i'r afael â hwy. Ategir hyn ymhellach gan broses adolygu dadansoddi CAMPUS.<br><br>Yn ogystal, ac fel y nodir uchod, y pwyslais oedd ar geisio llywio'r drafodaeth o amgylch y materion hynny sydd eisoes wedi codi drwy'r cynllun llesiant, gyda golwg ar geisio deall sut y maent yn berthnasol o ran defnydd tir ac a fyddai modd mynd i'r afael â hwy drwy'r system gynllunio.<br><br>Roedd y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion (mae'r fersiwn gyfredol (fersiwn 3) Ionawr 2023 ar gael fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth) yn ceisio datblygu a llywio'r broses o ystyried materion allweddol gan adeiladu ar gynnwys y CDLl mabwysiedig presennol. Wrth wneud hynny, mae wedi adlewyrchu canlyniadau'r adroddiadau monitro blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun mabwysiedig presennol yn ogystal â'r Adroddiad Adolygu ac adroddiad cwmpasu'r AC.<br><br>Cafodd y materion allweddol eu llywio hefyd drwy'r broses ymgynghori ac ymgysylltu a lywiodd y gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir -yn enwedig y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.<br><br>Mae'r Cynllun yn cynnwys diagram allweddol sy'n dangos y broses rhwng nodi'r materion hyd at y weledigaeth ac yna'r amcanion a'r polisïau strategol a fydd yn mynd i'r afael â'r materion. |
| *A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?*<br><br>Ydy. Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cynnwys datblygu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio a chasglu data yn ogystal â choladu astudiaethau sydd ar gael eisoes. |

| |
|---|
| Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r Cyngor wedi ceisio trefnu i baratoi astudiaethau ar y cyd â'i gymdogion neu ar draws y rhanbarth. Mae gwaith o'r fath wedi cynnwys:<br>Yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro<br>Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Wedi'i lunio ar draws y Rhanbarth)<br>Asesiad Perygl Llifogydd Strategol<br>Y Model Hyfywedd Rhanbarthol<br><br>Ceir adran ar wefan y Cyngor sy'n nodi'r sylfaen dystiolaeth ac yn rhestru'r rheiny sydd ar gael. Yn ystod pob cam, bydd tystiolaeth fwy penodol a diweddar yn cael ei llunio yn ôl yr angen er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi a gweithredu'r Cynllun.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag awdurdodau cyfagos a'r rheiny ar draws y rhanbarth i sicrhau bod buddiannau a meysydd polisi cyffredin yn cael eu harchwilio ac fel rhan o ymrwymiad i gydweithio rhanbarthol. |
| *A ellir dangos y sail resymegol i bolisïau'r cynllun?*<br><br>Gellir. Mae'r Cynllun yn cynnwys y broses o nodi materion, y Weledigaeth, yr amcanion strategol a'r strategaeth a ffefrir ac wedyn y polisïau strategol. Mae'r polisïau strategol hyn yn pennu'r cyd-destun ar gyfer y polisïau manylach sy'n seiliedig ar faes a phwnc. Mae'r polisïau strategol a manwl yn cael eu grwpio yn unol â themâu er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Cynllun.<br><br>Mae pob polisi strategol yn cyd-fynd â thestun ategol neu gyfiawnhad rhesymedig ac fe'i hategir gan yr asesiad polisi a nodir yn atodiadau'r CDLl Adneuo. Mae'r asesiad hwn yn cysylltu'r polisi'n benodol â'i amcan strategol perthnasol (sydd yn ei dro yn gallu cael ei gysylltu â'r mater(ion) perthnasol)). Ceir hefyd yn y polisi gyfeiriad at y nod llesiant lleol perthnasol, y dangosydd monitro ac agweddau ar Bolisi Cynllunio Cymru.<br><br>Mae gan bob Polisi Strategol gyfres o bolisïau penodol sydd hefyd yn cyd-fynd â thestun ategol neu gyfiawnhad rhesymedig. Lle bo'n berthnasol ac yn angenrheidiol, mae dolenni cyswllt i ddogfennau ategol, tystiolaeth a Chanllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynnwys er mwyn egluro ymhellach y dull polisi penodol a'r broses o'i weithredu. |
| *A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy?*<br><br>Ydy. Mae'r Cynllun yn deillio o dystiolaeth (ac yn seiliedig arni) a fydd yn cael ei datblygu ymhellach a'i hychwanegu ato drwy ei broses baratoi.<br><br>Mae cyflawni datblygiad cynaliadwy yn rhan ganolog o'r Cynllun. Nodir bod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) wedi rhoi arweiniad amhrisiadwy ar gyfer paratoi'r Cynllun.<br><br>Mae gan yr ACI rôl hanfodol a chyson yn y gwaith o baratoi'r CDLl. Yn hyn o beth, mae'r AC/ASS fel y'u paratowyd ar gyfer y Cynllun Adneuo Cyntaf a'r ACI ar gyfer yr Ail Gynllun Adneuo wedi bod yn ganolog o ran profi neu fesur perfformiad y CDLl |

| |
|---|
| o'i sefydliad hyd at baratoi'r CDLl Adneuo Cyntaf a'r Ail Gynllun Adneuo dilynol. Mae hyn yn arwydd o'r adborth ailadroddol rhwng yr ACI a'r AC/ASS a pharatoi'r CDLl.<br><br>Mae'r Cynllun yn ceisio cyflawni darpariaeth â thystiolaeth ond uchelgeisiol ar gyfer twf, tra'n cydnabod a gwneud darpariaeth ar gyfer yr amrywiaeth amgylcheddol gyfoethog ar draws y sir. Mae hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol ac yn adlewyrchu uchelgeisiau cynlluniau a strategaethau'r Cyngor ond hefyd y rhai ar lefel ranbarthol.<br><br>Mae'r Cynllun yn croesawu twf, wedi'i osod yng nghyd-destun ehangach Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae darpariaeth tai, er ei bod yn uwch nag amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth. Nod y Cynllun yw cynnig lefel twf gytbwys a chynaliadwy. Mae'r dull canolbwyntio ar dwf yn gyson â Chymru'r Dyfodol a cheisir ei roi ar waith ar draws yr aneddiadau, gyda'r ffocws ar Lanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaethau Cymru'r Dyfodol gyda Llanelli a Rhydaman/Cross Hands yn ffurfio rhan o'r Ardal Dwf Genedlaethol (cyfeirir at dystiolaeth ranbarthol wrth ddiffinio cwmpas gofodol yr ardal dwf genedlaethol) a Chaerfyrddin fel canolfan ranbarthol. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cymunedau gwledig a'u cyfraniad i economi, amgylchedd a diwylliant y Sir.<br><br>Mae hierarchaeth aneddiadau wedi'i datblygu gan ystyried pa mor gynaliadwy yw pob anheddiad sy'n diffinio aneddiadau a sut y gallant gyfrannu at eu cymunedau ehangach. Mae'r hierarchaeth hon yn cydnabod y gwasanaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael yn ogystal â materion o ran mynediad ac ystyriaethau eraill. Dylid cyfeirio at y sylfaen dystiolaeth berthnasol. |
| *A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon dyheadol?*<br><br>Ydy. Nod y weledigaeth yw adlewyrchu'r strategaeth gorfforaethol sy'n seiliedig ar y cynllun llesiant yn ogystal â'r blaenoriaethau adfywio allweddol hynny yn y Sir - yn benodol y Strategaeth Drawsnewid.<br><br>Mae'r weledigaeth hefyd yn pennu'r fframwaith ar gyfer cydnabod y Fargen Ddinesig a'r cyfleoedd posibl y mae hon yn eu rhoi i Sir Gaerfyrddin fel Sir uchelgeisiol â chysylltiadau da. Dylid nodi bod y Weledigaeth wedi'i diweddaru o'r hyn a gynhwyswyd yn y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir o ganlyniad i sylwadau ynghylch y Strategaeth ac argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd.<br><br>Wrth adeiladu ar y weledigaeth, mae'r amcanion strategol yn cynnwys adran sylwadau sy'n adolygu i ba raddau y maent yn ddigon uchelgeisiol.<br><br>Cyfeirir at y Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2019). |
| *A yw'r dewisiadau amgen 'gwirioneddol' wedi'u hystyried yn briodol?*<br><br>Ydy. Ystyrir bod y Cynllun yn realistig ac yn briodol gan ei fod wedi'i ddatblygu drwy nifer o opsiynau eraill 'go iawn'. |

| |
|---|
| Mae nifer o wahanol opsiynau twf ac opsiynau gofodol eraill wedi'u hystyried a manylir ymhellach ar y rhain yn y sylfaen dystiolaeth a'r papurau pwnc ynghylch Opsiynau Twf Strategol ac Opsiynau Gofodol. Mae'r Ail Gynllun Adneuo yn nodi'r opsiynau a dderbyniwyd fel rhan o'r naratif rhagarweiniol i baratoi'r Cynllun.<br><br>Nodwyd opsiwn hybrid gan yr asesiad o'r opsiynau gofodol gan gynnwys agweddau gan eraill a gyflwynir i'w hystyried. Daeth yr opsiwn hybrid hwn i'r amlwg fel rhan o broses ymgysylltu, yn benodol drwy'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Yn ogystal, cafodd yr Opsiynau Twf eu hystyried yn yr un modd ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth arbenigol. Er mwyn cydnabod y newidiadau cyd-destunol oedd wedi digwydd ers cyhoeddi'r Cynllun Adneuo Cyntaf, mae set ddiwygiedig o dystiolaeth wedi cael ei pharatoi mewn perthynas â Thai a Thwf Economaidd. Mae hyn yn cynnwys amcanestyniadau a senarios wedi'u diweddaru ar newid mewn poblogaeth ac aelwydydd. Mae'r rhesymau y tu ôl i'r opsiwn twf a'r opsiwn gofodol wedi'u nodi yn natganiad ysgrifenedig yr Ail Gynllun Adneuo a'r sylfaen dystiolaeth.<br><br>Cafodd yr Opsiynau Strategol eu hystyried hefyd drwy'r broses AC/AAS a'r broses ddilynol o baratoi'r ACI.<br><br>Mae'r broses o ystyried safleoedd wedi'i llywio gan y broses safleoedd ymgeisio a'r ymatebion a gafwyd gan gynigwyr a'r rheiny wnaeth sylwadau ynghylch y safle arfaethedig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori dilynol. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â'r Fethodoleg ar gyfer Asesu Safleoedd a'r adborth gan ymgyngoreion technegol a'r sylfaen dystiolaeth, wedi llywio'r broses o ddewis safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl Adneuo Diwygiedig. |
| *A yw'n rhesymegol, rhesymol a chytbwys?*<br><br>Ydy. Mae'r Cynllun wedi deillio o ddealltwriaeth glir o'r materion yn genedlaethol, ac yn hanfodol, y rheiny sy'n effeithio ar Sir Gaerfyrddin. Mae'n llifo ac yn cael ei gyflwyno mewn modd rhesymegol o'r sylfaen dystiolaeth i'r materion, yr amcanion a'r polisïau, wedi'i ategu lle bo'n angenrheidiol ac yn berthnasol gan dystiolaeth a dogfennau atodol.<br><br>Mae'n dangos golwg gytbwys o'r Sir o ran cynllunio defnydd tir. Lle bo'n briodol, mae'n integreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu polisi cenedlaethol a'r angen am Gynllun cynaliadwy y gellir ei gyflawni.<br><br>Mae'r Cynllun wedi deillio o broses ymgysylltu a thystiolaeth ac felly mae'n rhesymegol ac yn rhesymol ac yn seiliedig ar safbwynt cytbwys. |
| *A yw'n gydlynol a chyson?*<br><br>Ydy. Mae'r Cynllun yn bodloni'r gofynion mewn perthynas â bod yn gydgysylltiedig ac yn gyson fel y dangosir gan lif resymegol o'r materion i'r polisïau strategol.<br><br>Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun wedi rhoi cyfle i werthuso nifer o opsiynau strategol eraill. Mae pob opsiwn wedi'i ystyried yn llawn - gan gynnwys drwy'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a/neu'r broses ddemocrataidd gan gynnwys Panel Ymgynghorol y CDLl. |

| |
|---|
| Llywiodd y Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion y gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir. O ganlyniad mae'r Cynllun yn croesgyfeirio mewn ffordd eglur a thryloyw rhwng y materion, yr amcanion strategol a'r 18 o bolisïau strategol.<br><br>Cafwyd cysylltiadau amlwg â'r Cynllun Llesiant a nodau llesiant y Cyngor, ac mae'r CDLl yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau corfforaethol o'r fath.<br>Mae'r Cynllun wedi datblygu drwy waith ymgysylltu helaeth, gan gynnwys â'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.<br><br>Mae'r Cynllun wedi'i strwythuro a'i gyflwyno'n glir ac ystyrir ei fod yn cyd-fynd â phapurau cefndir a chanllawiau cynllunio atodol mewn modd cydlynol. |
| *A yw'n glir a phenodol?*<br><br>Ydy. Mae'r Cynllun wedi'i osod ar ffurf eglur a rhesymegol sy'n rhoi dealltwriaeth glir o'i gynnwys, ond hefyd, yn hanfodol, ei ddibenion craidd a'i amcanion. Mae'n rhoi ffocws clir ar ei ddiben, gyda naratif rhesymegol sy'n ategu ei gydrannau o nodi materion, i sut yr eir i'r afael â'r rhain fel rhan o'i ddull strategol, yn ogystal â'i bolisïau a'i gynigion. |

| |
|---|
| **Prawf 3: A fydd y cynllun yn gweithio** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)<br><br>Bydd, gweler yr atebion isod. |
| *A fydd yn effeithiol?*<br><br>Bydd. Mae amcanion y Cynllun wedi deillio o ddealltwriaeth o faterion ac anghenion Sir Gaerfyrddin yn ogystal â sylfaen dystiolaeth gadarn a rhesymegol. Nod y strategaeth yw integreiddio ac adlewyrchu cynlluniau a strategaethau eraill fel rhan o ddull integredig o gyflawni, gan wneud popeth posibl i sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol.<br><br>Bydd y Cynllun yn cyflawni ei weledigaeth a'i amcanion o ran mynd i'r afael â materion allweddol drwy gyfres o bolisïau strategol a manwl yn ogystal â dyrannu defnydd tir. Mae'r Cynllun wedi pennu strategaeth a arweinir gan dwf sy'n adlewyrchu'r cyfraddau cyflawni presennol ac uchelgeisiau strategol y Cyngor a'r Dinas-ranbarth. |
| *A ellir ei weithredu?*<br><br>Gellir. Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun yn cael ei wneud gyda'r bwriad clir y bydd modd ei weithredu ac y bydd ei bolisïau a'i gynigion yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun. |

| |
|---|
| Mae'n pennu fframwaith gofodol a thwf strategol y gellir eu cyflawni sy'n seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd ac sy'n ymateb i anghenion cymunedau Sir Gaerfyrddin. Mae'r polisïau a'r cynigion yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithredu amcanion y Cynllun a'r broses o wneud penderfyniadau.<br><br>Fel rhan o'r CDLl Adneuo, mae fframwaith monitro effeithiol a phriodol wedi'i ddatblygu a'i gynnwys yn y Cynllun. Bydd hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer cynnal yr Adroddiad Monitro Blynyddol.<br><br>Yr Adroddiad Monitro Blynyddol fydd y prif ddull o fonitro ac asesu'r cynnydd o ran gweithredu polisïau a chynigion y CDLl Diwygiedig a fabwysiedir. |
| *A oes cymorth ar gael gan y darparwyr seilwaith perthnasol, yn ariannol ac o ran bodloni terfynau amserol perthnasol?*<br><br>Oes. Mae'r Cynllun yn cynnwys rhestr o safleoedd defnydd cymysg, tai a chyflogaeth. Mae hefyd yn cynnwys dau safle strategol sy'n adlewyrchu'r uchelgeisiau a nodir drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe.<br><br>Mae darparwyr seilwaith yn elfen bwysig o ddatblygu'r CDLl ac yn ymgynghorai allweddol. Yn hyn o beth ymgysylltwyd â hwy drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun a bydd hyn yn parhau i gael ei wneud. Ategir y Cynllun gan Gynllun Seilwaith a fydd yn cael ei ddatblygu'n barhaus drwy'r broses o lunio'r Cynllun.<br><br>Dylid nodi bod cynrychiolwyr cyrff seilwaith megis Dŵr Cymru yn aelodau'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn aelod o Is-grŵp Ffosffad Cynllunio Cymru gyfan ac yn rhan o'r Grŵp Goruchwylio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill gan gynnwys darparwyr seilwaith sy'n ymwneud â materion ansawdd Dŵr. Rydym wedi ac yn parhau i weithio ar y cyd wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n perthyn i ganllawiau CNC ar ffosffadau, ac rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau ar gyfer unioni'r mater. Mae Byrddau Rheoli Maetholion Tywi, Teifi a Chleddau hefyd wedi eu sefydlu, ac mae Dŵr Cymru'n aelod llawn ohonynt. Bydd gwaith y byrddau hefyd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Technegol, â'r nod o ganfod datrysiadau a chyflawni lliniaru. |
| *A fydd datblygiadau'n ddichonol?*<br><br>Byddant. Mae'r angen i waith datblygu fod yn hyfyw yn elfen bwysig o baratoi'r Cynllun, o ddatblygu tystiolaeth yn y dyfodol, i nodi safleoedd neu ddatblygu polisïau penodol.<br><br>Mae dull cadarn a chyson ar gyfer asesu hyfywedd ar draws awdurdodau yn y rhanbarth wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei ddefnyddio'n llawn gan yr awdurdod. Mae'r model hwn yn offeryn pwysig ar gyfer asesu hyfywedd mewn ffordd gyson a hygyrch. Ategir y gwaith hwn fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod unrhyw |

hyfywedd yn cael ei bennu ar sail amodau lleol, a bod unrhyw oblygiadau hyfywedd ar bosibilrwydd datblygiadau i wneud cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth lawn a thystiolaeth gadarn.

Wrth i'r Cynllun symud ymlaen tuag at gael ei gyflwyno i ddatblygwyr, bydd angen i dirfeddianwyr neu gynigwyr safleoedd ddarparu gwybodaeth ychwanegol fel y bo'n briodol am unrhyw fylchau tystiolaethol o ran hyfywedd.

Mae Astudiaeth o Hyfywedd Tai Fforddiadwy benodol i Sir Gaerfyrddin wedi'i chomisiynu a chyflwynwyd ei chanfyddiadau diweddaraf fel tystiolaeth er mwyn ategu'r Ail GDLl Adneuo.

*A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?*

Gellir. Ategir dyraniad safleoedd gan bapur pwnc tai ac mae pob safle a ddyrennir hefyd yn cyd-fynd â phrofforma yn unol â'r Fethodoleg Asesu Safleoedd. Mae hyn yn nodi materion cyflawni ac yn cefnogi cynnwys y safle ac yn cysylltu â'u hystyriaeth fel rhan o'r ACI.

Yn hyn o beth mae'r broses o ddyrannu safleoedd wedi'u llywio gan gyfranogiad partneriaid technegol a seilwaith. Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â dosbarthiad tai sy'n dangos cyflawniad safleoedd ar draws cyfnod y Cynllun. Bydd y dosbarthiad yn ffurfio dogfen gyson sy'n datblygu hyd at fabwysiadu'r CDLl ac ar ôl hynny.

*A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?*

Ydy ac oes. Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun wedi ceisio adlewyrchu'r angen am hyblygrwydd. Roedd y broses o nodi'r gofyniad am aelwydydd yn cynnwys nifer o ragdybiaethau gan gydnabod agweddau penodol ar Sir Gaerfyrddin - gan gynnwys ei chyfraddau tai gwag. Mae'r Cynllun, wrth ystyried y gofyniad hwn, wedi cynnwys lefel briodol o hyblygrwydd o 10% neu 882 o dai.

Yn yr un modd, mae lefel y cynnydd mewn cyflogaeth, er ei fod yn gyson â chynlluniau a strategaethau eraill, yn nodi tua 71ha o dir cyflogaeth.

*A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?'*

Mae'r Cynllun wedi cynnwys Fframwaith Monitro a Gweithredu sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad y Cynllun.